OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 463

# Rheoliadau Materion Gwledig, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

## RHAN 6

### Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd

**Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

**21.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(**1**), yn y diffiniad o "mewnforyn trydedd wlad" (*"third country import"*), yn lle'r geiriau o "y mae Rhan" hyd at "ag ef" rhodder "y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan Reoliad 882/2004".

**Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008**

**22.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008(**2**), yn y diffiniad o "Rheoliad (EU) 2013" (*"Regulation (EU) 2013"*), yn lle'r geiriau o "Rheoliad" hyd at "1234/2007" rhodder "Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol(**3**)".

**Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010**

**23.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010(**4**), yn y diffiniad o "Rhan IV" (*"Part IV"*) yn lle'r geiriau o "Rhan IV o" hyd at "1234/2007" rhodder "Rhan 4 o Atodiad 7 i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol".

**Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010**

**24.**—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1)—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad (EU) 2013" ("*Regulation (EU) 2013*"), yn lle'r geiriau o "Rheoliad Senedd" hyd at "1234/2007" rhodder "Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd

(**1**) O.S. 2007/3462 (Cy. 307).
(**2**) O.S. 2008/1341 (Cy. 141) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320).
(**3**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2017/2393 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).
(**4**) O.S. 2010/1492 (Cy. 135), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320).

Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol";

(b) ar ôl y diffiniad o "Rheoliad (EU) 2013" hepgorer "and";

(c) ym mharagraff (6)(a) hepgorer "Rheoliad Sengl CMO neu".

(3) Yn Atodlen 2—

(a) yn Rhan 1, yng ngholofn gyntaf y tabl, yn y ddau gofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 75(2) a (3), hepgorer "o Reoliad (EU) 2013";

(b) yn Rhan 2, yn ail golofn y tabl, yn lle'r cofnod sy'n ymwneud a'r is-baragraff cyntaf a'r ail is-baragraff yn Erthygl 12(2), yn lle'r geiriau o "Erthygl 2" hyd at "bwydydd" rhodder "Erthygl 23(1) o Reoliad (EU) 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig".

**Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011**

**25.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011(**6**), yn y diffiniad o "Rheoliad (EU) 2013" ("*Regulation (EU) 2013*") yn lle'r geiriau o "Rheoliad (EU) 2013" hyd at "1234/2007" rhodder "Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol".

(**6**) O.S. 2011/1719.